Cyfrannu at waith eich tîm

## Trosolwg

Rhaid i sefydliadau ddarparu lefelau uchel o wasanaeth i'w cwsmeriaid ac mae hyn y gofyn am ymdrech tîm gan yr holl staff a'r rheolwyr. Mae'r uned hon yn ymwneud â sut ydych yn gweithio'n dda fel aelod o'r tîm, gwella eich gwaith eich hun a gwaith eich tîm yn ei gyfanrwydd. Os oes gan eich sefydliad system werthuso ar gyfer perfformiad a datblygiad personol, bydd hyn yn gyd-destun ardderchog ar gyfer yr uned hon.

Rhennir yr uned hon i dair rhan. Mae'r rhan gyntaf (tudalen 2) yn rhoi rhai enghreifftiau ac esboniadau o rai geiriau yr ydym yn eu defenyddio yn yr uned. Bydd yr ail ran (tudalennau 35) yn disgrifio'r tri pheth y mae'n rhaid i chi eu gwneud. Y rhain yw:

1. Gweithio'n effeithiol gyda'ch cydweithwyr
2. Gwella eich gwaith eich hun
3. Helpu i wella gwaith eich sefydliad

Mae'r drydedd ran (tudalennau 6 - 7) yn disgrifio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth mae'n rhaid i chi ei gael.

**Grŵp Targed**

Mae'r uned hon ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio mewn amgylchedd chwaraeon a gweithgarwch.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Gweithio'n effeithiol gyda'ch cydweithwyr**

P1 sefydlu perthynas waith gyda'ch **cydweithwyr** sy'n eich helpu i weithio'n dda gyda'ch gilydd
P2 **cyfathrebu'n** glir gyda'ch cydweithwyr
P3 cynnal safonau o ymddygiad proffesiynol
P4 cyflawni eich dyletswyddau a'ch ymrwymiadau i **gydweithwyr** fel a chytunwyd, neu eu rhybuddio mewn da bryd pan na allwch wneud yr hyn y maent yn ei ddisgwyl
P5 gofyn am gymorth a gwybodaeth pan ydych ei angen
P6 rhoi cymorth a gwybodaeth i'ch **cydweithwyr** pan maent ei angen, cyn belled â'i fod yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
P7 cyfrannu i drafodaethau tîm
P8 dilyn y gweithdrefnau cywir pan ydych yn wynebu anghydfodau neu drafferthion gyda **Chydweithwyr**

**Gwella eich gwaith**

P9 gwerthuso pob agwedd o'ch gwaith
P10 gofyn i'ch **cydweithwyr** a'ch cwsmeriaid am adborth ar eich gwaith
P11 ymdrin â beirniadaeth adeiladol mewn modd gadarnhaol
P12 gweithio gydag unigolyn perthnasol er mwyn:
P12.1 nodi eich cryfderau a meysydd lle gallwch wella eich gwaith
P12.2 nodi meysydd newydd o ran sgiliau a gwybodaeth y gellwch fod eu hangen ar gyfer cyfrifoldebau yn y dyfodol
P12.3 cynllunio ffyrdd y gellwch wella eich gwaith a pharatoi ar gyfer cyfrifoldebau yn y dyfodol
P13 cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad perthnasol
P14 adolygu eich datblygiad perthnasol yn rheolaidd

**Helpu i wella gwaith eich sefydliad**

P15 gofyn i gwsmeriaid am adborth ar y gwasanaethau mae eich sefydliad yn eu darparu
P16 nodi ffyrdd gall eich tîm wella gwasanaethau eich sefydliad i gwsmeriaid

P17 awgrymu’r gwelliannau hyn i’ch **cydweithwyr** gan ddilyn y gweithdrefnau cywir
P18 trafod sut gellir rhoi’r gwelliannau hyn ar waith gyda **chydweithwyr** perthnasol a gwrando ar eu syniadau
P19 helpu i newid gwasanaethau fel eu bod yn cwrdd ag anghenion eich cwsmeriaid

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Ar gyfer yr holl uned**

K1 y gwerthoedd a'r codau ymarfer sy'n berthnasol i'r gwaith yr ydych yn ei gyflawni
K2 pwysigrwydd gwaith tîm
K3 sut gall gwella eich gwaith eich hun a gwaith eich tîm wella eich sefydliad yn ei gyfanrwydd a lefel y gwasanaeth mae'r cwsmer yn ei dderbyn

**Gweithio'n effeithiol gyda'ch cydweithwyr**

K4 beth mae 'perthynas waith dda' gyda'ch cydweithwyr yn ei olygu
K5 sut i sefydlu perthynas waith dda gyda'ch cydweithwyr
K6 pam ei fod yn bwysig cyfathrebu'n glir gyda chydweithwyr
K7 sut i gyfathrebu gyda rheolwyr yn eich sefydliad
K8 y dyletswyddau yr ydych yn gyfrifol amdanynt
K9 pan ei bod yn bwysig cyflawni eich dyletswyddau fel a gytunwyd neu rybuddio cydweithwyr mewn da bryd os na ellwch wneud hynny
K10 sefyllfaoedd lle gallwch fod angen cymorth yn eich gwaith a pham ddylech bob amser ofyn am gymorth a gwybodaeth yn y sefyllfaoedd hyn
K11 sefyllfaoedd lle gall fod angen i chi roi cymorth a gwybodaeth i'ch cydweithwyr
K12 sefyllfaoedd lle na ddylech roi cymorth a gwybodaeth i'ch cydweithwyr
K13 pwrpas cyfarfodydd tîm
K14 pam bod trafodaethau tîm yn bwysig a pham ddylech chi gyfrannu tuag atynt
K15 gweithdrefnau ar gyfer delio â gwrthdaro yn eich sefydliad

**Gwella eich gwaith eich hun**

K16 pam ei bod yn bwysig i chi wella eich gwaith eich hun yn barhaus
K17 pam ei bod yn bwysig asesu eich gwaith eich hun wrth eich hunan a chael adborth gan eich cydweithwyr
K18 beth mae'n ei olygu i 'drin beirniadaeth mewn modd adailadol' a pham bod hyn yn bwysig
K19 yr aelod perthnasol o staff yn eich sefydliad y gallwch gynllunio a datblygu eich gwaith â hwy
K20 y gweithdrefnau ddylech eu dilyn pan ydych eisiau cymryd rhan mewn

gweithgareddau hyfforddiant a datblygu

**Helpu i wella gwaith eich sefydliad**

K21 y mathau o sefyllfaoedd lle mae cwsmeriaid yn rhoi adborth ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn
K22 pam ei bod yn bwysig gwrando ar adborth cwsmeriaid
K23 sut i nodi meysydd lle gellir gwella gwaith eich tîm
K24 y gweithdrefnau ddylech eu dilyn er mwyn gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut i wella gwasanaethau i gwsmeriaid
K25 pam ei bod yn bwysig trafod eich awgrymiadau gyda chydweithwyr a chymryd eu syniadau i ystyriaeth

## Cwmpas/Ystod

**Gweithio'n effeithiol gyda'ch cydweithwy**

Rhaid i chi ddangos o'ch gwaith eich bod wedi gweithio'n dda gyda'r mathau canlynol o:

1. Gydweithiwr sy'n
1.1. gweithio ar yr un lefel â chi
1.2. atebol i chi
1.3. rheolwr llinell

a bod yn glir yn y ddau fath canlynol o

1. gyfathrebu
2.1. llafar
2.2. ysgrifenedig

Fodd bynnag, rhaid i chi hefyd ddangos fod gennych chi'r wybodseth a'r sgiliau angenrheidiol i ymdrin â'r holl fathau o gyd-destun a restrir uchod. A52.2 Gwella eich gwaith eich hun
Gwella eich gwaith eich hun

Ar gyfer eich gwaith eich hun, rhaid i chi ddangos eich bod wedi casglu adborth gan ddau o'r mathau canlynol o:

1. gydweithiwr sy'n
3.1. gweithio ar yr un lefel â chi eich hun
3.2. gyfrifol amdanoch
3.3. rheolwr llinell

Fodd bynnag, rhaid i chi hefyd ddangos fod gennych chi'r wybodaeth angenrheidiol a'r sgiliau i ymdrin â'r holl fathau o gyd-destun a restrir uchod.

**Sut i wella gwaith eich sefydliad**

Rhaid i chi ddangos o'ch gwaith eich bod wedi awgrymu a thrafod gwelliannau gyda'r mathau canlynol o:

1. gydweithiwr sy'n
4.1. gweithio ar yr un lefel â chi eich hun
4.2. gyfrifol amdanoch
4.3. rheolwr llinell

Fodd bynnag, rhaid i chi hefyd ddangos bod gennych chi’r wybodaeth angenrheidiol a’r sgiliau i ymdrin â’r holl fathau o gyd-destun a restrir uchod.

## Geirfa

**Cydweithwyr**
y bobl yr ydych yn gweithio â hwy – pobl sy'n gweithio ar yr un lefel â chi eich hun neu eich rheolwr(wyr)

**Gwerthuso**
meddwl am eich gwaith a nodi beth ydych yn ei wneud yn dda ac ym mhle mae lle i wella

**Aborth**
pobl eraill – cwsmeriaid neu gydweithwyr – dweud wrthynt beth i feddwl

**Cyfrifoldebau yn y dyfodol**
gall rhain fod yn ddyletswyddau newydd mae arnoch eisiau eu cymryd neu ddyletswyddau newydd mae eich rheolwr llinell eisiau eu rhoi i chi
– gall hyn gynnwys dyrchafiad

**Perthynasau Gwaith effeithiol**
y math o berthynas gyda'ch cydweithwyr sy'n helpu eich tîm i weithio'n dda a darparu lefel uchel o wasanaeth i'r cwsmer – mae hyn yn cynnwys dod ymlaen yn dda gyda'ch cydweithwyr, bod yn deg â hwy, osgoi anghydfodau di-angen a pheidio â gadael i'ch bywyd personol ddylanwadu ar y modd yr ydych yn ymwneud â chydweithwyr

**Rheolwr llinell**
y rheolwr neu'r goruchwyliwr yr ydych ym adrodd iddynt

**Polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad**
yr hyn mae eich sefydliad yn ei ddweud y dylai ac na ddylai ei staff wneud mewn sefyllfaoedd penodol

**Trafodaethau tîm**
cyfarfodydd tîm fydd y rhain fel arfer ond gallant gynnwys trafodaethau mwy anffurfiol gydag aelodau o'r tîm a rheolwyr llinell

**Hyfforddiant a datblygu**
gall hyn olygu bod ar gwrs, ond gall hyn gynnwys gwylio aelodau eraill o'r staff yn gwneud pethau sy'n newydd i chi, gan dderbyn cyfarwyddiadau gan aelodau eraill o'r staff ar bethau newydd mae'n rhaid i chi eu gwneud a chael y cyfle i ymarfer sgiliau newydd

**Cyfathrebu Ysgrifenedig**

Gall hyn gynnwys nodiadau byrion, memos, llythyrau neu ddogfennau anffurfiol eraill

## Cysylltiadau â SGC eraill

1. Mae’r uned yma’n dilyn yr holl unedau eraill yn agos.

**Ei lle yn y Fframwaith CGC/CGA**

2. Mae’r uned hon yn orfodol yn y CGC/CGA’au lefel 2 Gwasanaethau Gweithredol, lefel 2 Gwaith Chwarae a’r lefel 2 Arwain Gweithgaredd.

Cyfrannu at waith eich tîm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Gorff 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills Active |
| **RCU gwreiddiol** | SKAALA52 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Proffesiynol, Hamdden, Teithio a thwristiaeth, Galwedigaethau Chwaeaeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Arwain a Rheoli Gwasanaethau Gofal |
| **Geiriau Allweddol** | gweithgar, hamdden, dysgu, gwaith, cydweithiwr, gwella, perchnogi, cynorthwyo, sefydliad, eich cyfathrebu |